**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 29 Medi 2015**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorydd Martyn Holland gysylltiad personol yn Eitem Rhaglen Rhif 5. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2015.<br><br>***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | CYNNIG CAU YSGOL RHEWL O 31 AWST 2017 A THROSGLWYDDO'R DISGYBLION PRESENNOL I YSGOL PEN BARRAS, RHUTHUN NEU YSGOL STRYD Y RHOS, RHUTHUN, YN DIBYNNU AR DDEWIS Y RHIENI. | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi canfyddiadau'r adroddiad gwrthwynebiad;*<br><br>*(b) ar ôl ystyried yr uchod, bod y Cabinet yn cymeradwyo'r penderfyniad i weithredu'r cynnig i gau Ysgol Rhewl ar 31 Awst 2017 a throsglwyddo'r disgyblion i adeilad newydd Ysgol Pen Barras, Rhuthun, neu Ysgol Stryd y Rhos, Rhuthun yn dibynnu ar ddewis y rhieni, a*<br><br>*(c) bod ceisiadau am gludiant dewisol i'r ysgol categori 2 agosaf yn cael eu hystyried ar sail achos wrth achos, gan ddisgyblion presennol Ysgol Rhewl a'u brodyr a'u chwiorydd am weddill eu haddysg gynradd.* |
| **6** | ADDASU CYNNIG YSGOL LLANFAIR AC YSGOL PENTRECELYN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion i -*<br><br>*(a) ymgynghori ag Esgobaeth Llanelwy, fel cyd-gynigydd, i ofyn am eu caniatâd i wneud yr addasiad arfaethedig;* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 29 Medi 2015**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b)* *cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud yr addasiad arfaethedig;*<br><br>*(c)* *ymgynghori â chyrff llywodraethu Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair ynglŷn â'r addasiad arfaethedig, a*<br><br>*(d)* *cytuno bod yr argymhellion i gael eu gweithredu ar unwaith yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor, sydd wedi eu cynnwys yn y cyfansoddiad, o ran galw materion i mewn yng ngoleuni'r amgylchiadau fel y nodir yn yr adroddiad.* |
| **7** | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 1 – 2015/16 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 1 2015/16.* |
| **8** | ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2014/15 | ***PENDERFYNWYD*** nodi'r Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2014/15. |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **11** | YSGOL GLAN CLWYD: DYFARNU CONTRACT | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu contract yn ymwneud â phrosiect Ysgol Glan Clwyd i'r contractwr a enwyd, ac at werth dros dro fel y nodwyd yn yr adroddiad.* |